

SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd: Rheolwr Llwybr Para Cenedlaethol

Yn Atebol i: Y Cyfarwyddwr Perfformiad Cenedlaethol

Prif Gyfrifoldeb: Bydd y Rheolwr Nofio Para Cenedlaethol yn cydweithio'n glos â'r agos â'r Cyfarwyddwr Perfformiad Cenedlaethol i gyflawni ac i helpu i ddatblygiad nofwyr Para mewn modd systematig yn unol ag amcanion perfformiad Nofio Cymru. Yn benodol, bydd yn ymgymryd â rôl arweiniol yn natblygiad nofio Para ledled Cymru, rheoli llwybr nofwyr para ar draws y rhwydwaith o glybiau, ac yn cymryd rôl arweiniol yng ngweithgarwch Para y Garfan Genedlaethol.

Cyfrifoldebau:

1. Arwain holl weithgarwch rhaglen benodol nofwyr para Nofio Cymru, gan gynnwys hyfforddi sgiliau para a chystadlaethau rhyngwladol penodol a gwersylloedd hyfforddi.
2. Darparu arweiniad / cymorth datblygu penodol ar gyfer nofwyr para i Glybiau Perfformiad a Datblygiad, a sicrhau bod nofio para yn rhan hanfodol ac allweddol o strwythurau Clybiau Perfformiad.
3. Gwerthuso'r Academïau cyfredol, mabwysiadu'r strwythur mwyaf priodol gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau sy'n sicrhau llwybr effeithiol ac effeithlon ar gyfer Nofwyr Para sy'n cael eu cynorthwyo gan weithlu â chymwysterau priodol.
4. Sicrhau bod nofwyr para dynodedig yn cael cyngor priodol yn gysylltiedig â'u datblygiad yn y dyfodol, i sicrhau llwybr di-dor at raglenni perfformiad priodol ar yr adeg briodol.
5. Cynnal adolygiad chwe-misol Para benodol ar draws y rhwydwaith Clybiau Perfformiad.
6. Monitro a gwerthuso cynnydd a datblygiad nofwyr para penodedig, gan gynnwys rheoli dosbarthiad athletwyr yn effeithiol a chysylltu â'r Rheolwr Dosbarthu Cenedlaethol
7. Dylanwadu ar a chynghori ar raglen waith Rheolwyr Datblygiad Rhanbarthol Nofio Cymru gan sicrhau perthnasoedd effeithiol ag Awdurdodau Lleol, rhwydweithiau Clybiau, Chwaraeon Anabledd Cymru, Partneriaid Iechyd (niod yw hon yn rhestr gyflawn) i sicrhau bod y llwybr yn cael ei boblogi, trwy bontio effeithiol ar gyfer nofwyr para o LTS i nofio cystadleuol.

8. Ffurio a chynnal cysylltiadau positif â phartneriaid allweddol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Prifysgolion, Chwaraeon Cymru, Swim England, Scottish Swimming a Chwaraeon Anabledd Cymru.
- 8.9. Rheoli a datblygu cynlluniau Canfod talent newydd a chyfredol a gweithio â phartneriaid allweddol i hybu, cysylltu a chanfod nofwyr newydd.
- 9.10. Cysylltu â British Para-Swimming i sicrhau bod rhaglenni Para Nofio Cymru yn ategu Llwybrau Perfformiad o Safon Ryngwladol yn effeithiol.
- 10.11. Mynychu a chyfrannu at Lwybr British Para-Swimming a Grŵp y Cenedloedd Cartref.
- 11.12. Cynyddu nifer y nofwyr Cymreig sy'n mynd ymlaen i Academi Para British Para-Swimming a'r Llwyfan Safon Ryngwladol a Rhaglenni Llwyfan Posibl.
- 12.13. Bod yn gyfrifol am reoli'r gyllideb Para benodol o ddydd i ddydd.
- 13.14. Cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig yn fisol i'r cyfarwyddwr Perfformiad Cenedlaethol sy'n ymdrin â chynnydd / gweithgarwch nofio-Para.
- 14.15. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau mewn ffordd barchus a chynhwysol, i hybu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Nofio Cymru.
- 15.16. Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r rôl, yn ôl cais y Cyfarwyddwr Perfformiad Cenedlaethol.

<u>MANYLEB Y PERSON</u>		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau Proffesiynol		
Gradd ôl-raddedig mewn Hyfforddiant Chwaraeon, Gwyddor Chwaraeon neu bwnc cysylltiedig.		✓
Gradd israddedig mewn Hyfforddiant Chwaraeon, Gwyddor Chwaraeon neu bwnc cysylltiedig.		✓
Profiad		
Profiad helaeth o weithio mewn datblygiad chwaraeon neu rôl rheoli llwybrau.	✓	
Dealltwriaeth dda o ochr dechnegol nofio, gan gynnwys techneg y gwahanol arddulliau nofio, sgiliau technegol a rhaglenni ffisiolegol.		✓
Profiad o weithio â thîm gwyddor chwaraeon amlddisgyblaeth.		✓
Profiad o weithio o fewn amgylchedd chwaraeon para a dealltwriaeth dda o'r system dosbarthiad nofio para.		✓
Llwyddiant blaenorol o weithio â rhanddeiliaid allanol fel awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau hamdden neu gyrff llywodraethu cenedlaethol.	✓	
Hanes blaenorol o ddatblygiad proffesiynol parhaus.		✓
Llwyddiant blaenorol o reoli llwybrau sy'n datblygu athletwyr yn systematig sy'n profi llwyddiant medalau Paralympaidd.		✓
Sgiliau a gwybodaeth		
Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol a meithrin perthnasoedd ag unigolion a sefydliadau partner allweddol.	✓	
Y gallu i weithio â gwir frwdfrydedd fel unigolyn ac fel rhan o dîm a'r gallu i arwain a symbylu unigolion allweddol.	✓	
Sgiliau adrodd, cyflwyno, trefnu a TG effeithiol.	✓	
Y gallu i ddatrys problemau a'r gallu i feddwl mewn ffordd bragmataidd ac arloesol.	✓	

Ymddygiad		
Anelu at ragoriaeth bob amser	✓	
Ysbrydoli eraill	✓	
Yn canolbwyntio ar ansawdd	✓	
Yn dangos parch a gonestrwydd tuag at eraill	✓	
Yn arloesol, yn herio'r norm	✓	
Rhagweithiol ac yn sicrhau canlyniadau, i gyflawni perfformiad uchel	✓	
Gallu cydweithio'n effeithiol	✓	
Yn fyfyrionol a meddwl agored	✓	
Yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysol bob amser	✓	